## ATODLEN 1

### ADOLYGIADAU CYCHWYNNOL O DREFNIADAU ETHOLIADOL ETC.

*Cyfarwyddydau a chanllawiau i'r Comisiwn*

4 (1) Rhaid i gyfarwyddyd o dan adran 11 neu 138 bennu erbyn pa ddyddiad y mae rhaid i'r Comisiwn gyflwyno ei adroddiad terfynol i Weinidogion Cymru o dan baragraff 8(3)(a).

(2) Caiff cyfarwyddyd o dan adran 11 neu 138 ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn roi sylw i faterion penodol a bennir yn y cyfarwyddyd wrth gynnal yr adolygiad cychwynnol.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddydau cyffredinol ynglŷn â chynnal adolygiadau cychwynnol, gan gynnwys—

(a) cyfarwyddydau ynglŷn ag ym mha drefn y mae gwahanol adolygiadau cychwynnol sy'n ofynnol gan gyfarwyddydau o dan adran 11 neu 138 i'w cynnal ac ynglŷn ag a yw gwahanol adolygiadau i'w cynnal ar yr un pryd, a

(b) cyfarwyddydau sy'n pennu materion y mae rhaid i'r Comisiwn roi sylw iddynt wrth gynnal adolygiadau cychwynnol.

(4) Cyn rhoi cyfarwyddyd o dan is-baragraff (3) rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag—

(a) y Comisiwn, a

(b) unrhyw bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r Comisiwn i roi'r gorau i gynnal adolygiad cychwynnol, ac i beidio â chymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r adolygiad.

(6) Caiff Gweinidogion Cymru, ar ôl i'r Comisiwn gyhoeddi adroddiad interim o dan baragraff 7(2) mewn perthynas ag ardal sy'n cael ei hadolygu, gyfarwyddo'r Comisiwn o dan adran 11 neu 138 i gynnal adolygiad cychwynnol arall mewn perthynas â'r un ardal.

(7) Rhaid i'r Comisiwn roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru ynglŷn â chynnal adolygiadau cychwynnol.